Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Tachwedd 2020

Annwyl Julie

**Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020**

Gwnaethom graffu ar **Reoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020** (y Rheoliadau) yn ein cyfarfod ar 19 Hydref 2020, a gosod ein hadroddiad yr un diwrnod. Trafodom ymateb Llywodraeth Cymru yn ein cyfarfod ar 2 Tachwedd.

Roedd ein hadroddiad yn cynnwys pedwar rhinwedd ac, er ein bod yn ddiolchgar am yr ymateb a gawsom, mae rhai materion yr hoffem fynd ymhellach ar eu trywydd gyda chi.

Roedd y pwynt cyntaf yn ein hadroddiad yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA), a gynhyrchwyd ar yr adeg y cymeradwywyd yr hawddfraint dros dro i Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ar ddechrau'r pandemig, ar gael yn gyhoeddus ac felly nid oedd yn bosibl canfod a sefydlodd yr asesiad yn llawn nad oes ymyrraeth â hawliau plant a phobl ifanc o dan y Confensiwn.

Rydym yn siomedig gyda'r ymateb a gawsom gan Lywodraeth Cymru, sy'n nodi, "Mae'r CRIA hwn ar gael i'r cyhoedd drwy restr CRIA ganolog Llywodraeth Cymru. Ar yr adeg y paratowyd y CRIA nid oedd yn orfodol cyhoeddi pob CRIA. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cyhoeddi'r CRIA hwn a bydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn yr ychydig wythnosau nesaf." Nodwn hefyd mewn perthynas â'r Rheoliadau dan sylw fod yr "adrannau perthnasol o'r Asesiad Effaith Integredig wrthi'n cael eu cyhoeddi."

Hefyd, i fodloni'r rhwymedigaethau a osodwyd gan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ac oherwydd bod y broses ddiwygiedig wedi bod yn rhedeg yn anffurfiol ers yr hawddfraint dros dro, awgrymom y byddai'n briodol cynnal a chyhoeddi asesiad pellach yn benodol i'r Rheoliadau hyn i sefydlu na effeithir ar yr hawliau

perthnasol. Er y nodwn y cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y Rheoliadau, mae'n siomedig eto mai dim ond adrannau perthnasol o'r Asesiad Effaith Integredig sydd wrthi'n cael eu cyhoeddi yn awr.

Roedd ein hail a'n trydydd pwyntiau rhinweddau yn gwneud sylwadau ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y Rheoliadau hyn gan Lywodraeth Cymru dros bedair wythnos rhwng 27 Gorffennaf a 24 Awst 2020. Gwnaethom dynnu sylw at y ffaith nad yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael i'r cyhoedd chwaith ac felly nid oedd yn bosibl mesur sut yr ystyriwyd yr ymatebion hynny wrth ddatblygu'r polisi sy'n sail i'r Rheoliadau. Nid yw'n eglur i ni pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn y broses o gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyn hyn.

Yn gyffredinol, rydym yn ystyried bod dull Llywodraeth Cymru yn enghraifft o arfer gwael.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i ni pan fydd y CRIA, yr adrannau perthnasol o'r Asesiad Effaith Integredig a'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau wedi cael eu cyhoeddi.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English